At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Awst 2012

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 4 MEDI 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL PWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 17eg Gorffennaf 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 ADRODDIAD DIWEDDARU ARIANNOL** (Tudalennau 13 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amageedig) yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

**6 PROSIECT CYMORTH I'R TEULU, AMDDIFFYN PLANT – ADRODDIAD EITHRIO CONTRACT** (Tudalennau 29 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd R.L. Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeëdig) a oedd yn manylu Prosiect Cymorth i'r Teulu, Amddiffyn Plant Tîm Cymorth i'r Teulu, a ariennir gan gynllun Cefnogi Pobl, ac yn gofyn am eithrio'r contract o'r gofyniad i dendro.

**7 PROSIECT RHANBARTHOL EFFEITHIOLRWYDD A GWELLIANNAU YSGOL – SEFYDLU CYD-BWYLLGOR** (Tudalennau 37 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd E.W. Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeëdig) sy'n gofyn am gymeradwyaeth i'r Amodau Cyfeirio ac Aelodaeth y Cyd-bwyllgor sydd i'w sefydlu yn dilyn penderfyniad i dderbyn yr Achos Busnes Llawn, a sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwelliannau Ysgol, ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru.

**8 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL** (Tudalennau 41 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi manylion Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

**9 NEWIDIADAU I RAGLEN CEFNOGI POBL** (Tudalennau 77 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd R.L. Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeëdig) yn manylu'r datblygiadau diweddaraf yn y trefniadau arfaethedig ar gyfer Rhaglen Cefnogi Pobl a gofyn i'r Cabinet gytuno ar gynrychiolaeth Aelod Arweiniol ar y Cyd-bwyllgor Rhanbarthol.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 89 - 90)

Derbyn blaenraglen waith y Cabinet a chydnabod y cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 Rhan 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**11 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL – GORCHYMYN PRYNU GORFODOL** (Tudalennau 91 - 100)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd (copi'n amgaeëdig) ar ddefnyddio trefniadau Prynu Gorfodol i gaffael eiddo yng Ngorllewin y Rhyl, i ddibenion cyflawni Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cygor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446